

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Tachwedd 17, 2020 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cyngorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Huw A. Evans, Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts, Meurig Ashton, Mordaf Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 20, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 20, 2020

Eitem 11.a. Mae angen cadarnhau ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad. Penderfynwyd i'r aelodau darllen y dogfennau ar wefan y Cyngor ac adrodd yn ôl yn cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

Eitem 6.b. Mae angen llenwi bin halen Rhedyncochion, Doluwchadda.

Eitem 7.a. Llythyr (4/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda hysbyseb yn dangos hysbysfyrddau sydd ar gael.

Anfonwyd yr hysbyseb ymlaen i'r aelodau i gael hysbysfwrdd yn Llanfachreth.

Awgrymodd Gerallt Griffith mae cwmni Kedel yn gwneud hysbysfyrddau o blastig ailgylchu ac y gost fydd £462 + £78 cludiant. Bydd angen hysbysfwrdd 950mm (lled) x 850mm (uchder) neu mwy a'i osod ar wal gerrig allanol y lloches bws; bydd dim angen dau bostyn ei ddal.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Karen Goswell am Signs Workshop, Coed y Brenin sy'n gwneud hysbysfyrddau o bren.

Penderfynwyd i Karen gwneud ymoliadau â Signs Workshop, Coed y Brenin am bris i wneud hysbysfwrdd.

6. Gohebiaeth

- a. Llythyr (3/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Tachwedd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

- b. Llythyr (13/11/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn ymwneud â llifogydd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd i'r aelodau rhoi adroddiad yn ein cyfarfod nesaf ar gynnwys y llythyr.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- a. Llythyr (6/11/2020) yn rhoi gwahoddiad am lansiad Cynllun Eryri ac i lansiad rhaglen newydd Llysgennad Eryri. Bydd y digwyddiad ar ddydd Llun 26/11/2020 am 10.00yb ar Zoom.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Materion Ariannol

- a. Llythyr (21/10/2020) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi manylion cyflog newydd y Clerc.

Taliad misol i'r Clerc: £102.40.

Taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £25.40

Cyfanswm: $12(\pounds102.40 + \pounds25.40) = \pounds1,533.60$ (Gweler Cofnodion Medi 22, 2020, Eitem 8.b)..

- b. Bil (3/11/2020) am £162.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at daliad gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer cyfrifon 2018/2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

- c. Anfonwyd copi o 'Sefyllfa ariannol y Cyngor sy'n debygol am weddill y flwyddyn gan ddefnyddio ffigurau 2019-2020' i'r aelodau.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r adroddiad.

- ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Hydref 2020; £1,141.27.
Balans yn y banc ar 29 Hydref 2020: £7,250.27 (29 Hydref 2019: £4,854.94).

9. Archwilio

a. Dogfen (23/10/2020) oddi wrth Archwilio Cymru ar “Trefniadau Archwilio ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn y dyfodol.” Mae'r ddogfen yn rhoi y trefniadau at archwilio cyfrifon ar gyfer 2020 – 2021 a'r blynyddoedd canlynol.

Anfonwyd y ddogfen i'r aelodau.

Mae angen newid trefniadau'r broses o archwilio oherwydd methiant rhai cynghorau i fodloni safonau gofynnol. O 2020 - 2021 ymlaen bydd yr archwiliad yn cael ei wneud pob tair blynedd os bydd sefyllfa'r Cyngor yn foddhaol. Fel arall bydd yr archwiliad ar y flynyddol gydag archwiliad ychwanegol os bydd angen.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Llythyr (22/10/2020) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am Ffordd Lefel. Dyma'r adroddiad derbyniwyd gan y Peiriannydd Strwythurol sydd yn ceisio datrys y sefyllfa: “Yn fras, wal gynnal sydd yma gyda'r darn tua 5m o hyd wedi disgyn o'r wal gan greu twll o tua 2m o dan y ffordd bresennol. Mae'r ffordd tua 10m yn uwch na'r afon sy'n rhedeg ar hyd gwaelod y wal. Rydym wrthi yn ceisio dylunio ateb i ddatrys y broblem ond yn anffodus mae'r safle yn anodd iawn o ran mynediad, cyflwr gweddill y wal sydd ar ôl a natur sensitive yr amgylchedd ar y safle. Ar hyn o bryd y bwriad yw ceisio paratoi cynllun yn barod eleni ar gyfer ceisio ei adeiladu yn y flwyddyn ariannol nesaf.”

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

11. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau â Meurig Ashton, Mordaf Roberts a Barry Jones am y drafferth maent yn cael i ymuno â'r cyfarfodydd.

Llofnod:

Dyddiad: